PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 7 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Hunt, Murphy, Thomas, Walker a/ac Sanders |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y penodwyd y Cynghorydd Nigel Howells yn Gadeirydd y Pwyllgor yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 26 Mai 2016.

1 : CYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl canlynol:

- Craffu, monitro ac adolygu gweithredu cyffredinol Rhaglen Gwella Caerdydd ac effeithiolrwydd gweithredu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor yn gyffredinol.

- Craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli a gweinyddu arian y Cyngor a'r defnydd o adnoddau dynol

- Asesu effaith partneriaethau gydag adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Nododd y Pwyllgor fod yr Aelodau canlynol wedi eu penodi i'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Mai 2016:

Y Cynghorwyr Hunt, Murphy, Sanders, Huw Thomas a Walker.
Bu 3 swydd wag ar hyn o bryd.

Croesawodd y Cadeirydd aelodau presennol ac aelodau sy'n dychwelyd i ddechrau flwyddyn ariannol 2016/17.
Mae'r Cynghorydd Walker yn ailymuno â'r Pwyllgor ar ôl blwyddyn yn gweithio fel yr Arglwydd Faer.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Rod McKerlich am ei gyfraniad at y Pwyllgor yn 2015/16.

4 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol wrth i'r eitem fusnes berthnasol agor.

6 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2016 yn gofnod cywir.

7 : RHAGLEN DATBLYGU SEFYDLIADOL – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd
- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Paul Orders, y Prif Weithredwr;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Dean Thomas, Rheolwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol
- Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau a Thai
- Helen Jones, Pennaeth Ystadau

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau eu bod wedi cael cyfle i ystyried cynnydd ers mis Gorffennaf y llynedd, pan ystyrion nhw'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol y tro ddiwethaf ac i holi am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynnal momentwm y Rhaglen, cyn cynllunio adroddiad diweddaru ar gyfer y Cabinet yn y dyfodol agos. Creodd hyn gyfle i werthuso pa mor dda y mae'r Rhaglen yn trafod y cynigion ar gyfer gwella a oedd yn adroddiad Dilynol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bale wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Bale mai rhaglen gynhwysfawr tair blynedd yw hon sydd wedi cyfrannu at berfformiad yn y Cyngor a'i gefnogi. Y bwriad oedd gwella a datblygu cynnydd hyd yn hyn, Datblygu a hybu newid diwylliannol yn y sefydliad, gwella'r agenda digideiddio a gwella ansawdd gwasanaethau.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Hinchey i'r Pwyllgor fod y rhaglen 3 blynedd hon yn un arwyddocaol wedi'i chreu i gefnogi ac adeiladu ar yr argymhellion yn adroddiad Dilynol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae trefniadau gwell bellach ar waith i fynd i'r afael â materion hirdymor a chefnogi datblygu yn y sefydliad. Cofnodwyd llwyddiant allweddol ar gyfer 2015/16 gydag asedau'r Cyngor yn cael eu defnyddio trwy ddefnyddio mecanweithiau amgen. Roedd y Rhaglen Pobl ar y gweill ac roedd Byrddau Rhaglen yn cael eu sefydlu er mwyn cefnogi hyn.

Rhoddodd Dean Thomas gyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Rhaglen Datblygu Sefydliadol hyd yn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Bu'r Pwyllgor yn awyddus i wybod am y targedau a gyflawnwyd ar gyfer y portffolio Asedau ac Eiddo. Mewn ymateb, tynnodd y Swyddogion sylw at y cyflawniadau a nodwyd yn yr adroddiad. Ar gyfer 2016/17, byddai targedau'n cael eu datblygu trwy'r prif gynlluniau a'u hadrodd yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn.

Tynnodd Aelodau o'r Pwyllgor sylw at alluogwyr y Rhaglen OD sy'n cefnogi gwelliant a gofynnon nhw sut y mae'r rhain yn cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol ac Agenda Beth sy'n Bwysig a sut y mae'r rhain yn cefnogi canlyniadau.
Esboniodd y Prif Weithredwr amcanion y Cynllun Corfforaethol sydd wedi cefnogi gwelliant gwasanaethau yn y sefydliad, gan gynnwys Asedau a Thargedau ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nododd y Cynllun Corfforaethol amcanion a chanlyniadau penodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am agweddau dynamig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bwrdd a arweinir gan bartneriaeth sy'n cryfhau cysylltiadau rhwng partneriaid. Roedd y rhaglen hon yn gyfle i yrru datblygu partneriaeth ac arloesedd rhwng sefydliadau ymlaen.

Tynnodd Aelodau o'r Pwyllgor sylw at lefelau perfformiad a gofynnon nhw a yw'r targedau hyn yn cael eu bwrw ac os felly, eu cynnal.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod modd gwella yn sylweddol hyd yn hyn o ran dangosyddion perfformiad gan fod anghysondeb wedi'i nodi ar draws y bwrdd. Cydnabuwyd bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi beirniadu anghysondeb o ran rheoli perfformiad ar draws y sefydliad.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd ethos y diwylliant perfformiad yn cael ei raeadru trwy'r sefydliad, gan fod arferion perfformiad hyd yn hyn wedi'u cofnodi fel araf.

Atgoffwyd Aelodau o'r Pwyllgor am faterion difrifol wedi'u nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Nodwyd bod prif wasanaethau statudol yn tangyflawni ac felly roedd mesurau'n cael eu datblygu i gefnogi gwelliant. Roedd angen trosolwg Corfforaethol mewn meysydd penodol, gyda rhaglen ar waith i greu ffyrdd newydd o ennill incwm.

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey fod gwelliant yn cael ei nodi trwy'r sefydliad. Roedd datblygiad yn symud yn y cyfeiriad cywir gyda phrojectau parhaol ar y gweill; rhaglenni Diwylliant a Chelfyddydau yr ADM, Rhaglen Seilwaith gweithgar a sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol (LATC). Gellid gweld enghreifftiau da ar draws y Cyngor gyda mwy o waith partneriaeth a pherthnasau agosach gyda'r Undebau Llafur.

Nodwyd i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014 feirniadu materion perfformiad y Cyngor. Un o'r argymhellion a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd cyhoeddi Cynllun Datblygu Sefydliadol i fynd i'r afael â'r materion wedi'u codi yn ystod archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriwyd bod hyn yn sail i symud ymlaen ac i weithredu'r Rhaglen OD. Cydnabuwyd bod modd gwella, ond gellid gweld cynnydd mewn rhannau o'r sefydliad.

Roedd Aelodau o’r Pwyllgor yn awyddus i gael adroddiad ar ddatblygiad yn unig, gan fod yr adroddiad cyfredol ychydig yn ailadroddus.  Mewn ymateb, rhoddodd y Swyddogion sicrwydd i’r Pwyllgor y rhoddir datganiad mwy clir ar berfformiad yn gyffredinol wrth adrodd am y Chwarter nesaf.
Nododd y Pwyllgor fod rhywfaint o'r data a roddwyd yn hanesyddol ac felly un o'r mecanweithiau i symud ymlaen oedd stopio defnyddio’r derminoleg gyfredol sy’n cael ei defnyddio.

Rhoddwyd gwybodaeth i Aelodau o’r Pwyllgor am sefyllfa gyfredol yr ADM Diwylliannol a Hamddenol. Mae’r Cyngor wedi meincnodi yn erbyn model gwahanol i fesur ei ddarpariaeth fewnol. Roedd y Gwasanaeth yn mynd trwy'r broses a byddai adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y Cabinet fis Gorffennaf 2016.

Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd y Rhaglen Perfformiad a Llywodraethu yn perfformio hyd yn hyn. Mewn ymateb, esboniodd Swyddogion fod prosesau atebolrwydd Rheoli Perfformiad yn gwella. Byddai adolygiad cyffredinol ar effeithlonrwydd y Rhaglen Datblygu Sefydliadol yn cael ei gynnal yn 2017.

Roedd aelodau o’r Pwyllgor yn awyddus i gadarnhau'r gwahaniaethau a fyddai'n amlwg mewn 6 mis. Mewn ymateb, dywedodd Swyddogion y byddai newidiadau o ran y ffordd y mae’r Cyngor yn gwerthuso data perfformiad, ynghyd â datblygu gweithdrefnau i gefnogi Aelodau yn eu rolau a chyfathrebu pellach gyda Chadeiryddion Craffu i fynd i'r afael â materion wedi'u codi yn Ymateb Craffu i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor am yr agweddau dynamig a mewnbwn y Siambr Seren a’r Fforwm Her. Cytunwyd y byddai Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o’r fforymau hyn ar gael i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i’r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi’i atodi).

8 : PERFFORMIAD CHWARTER 4 2015/16

Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau fod adroddiadau perfformiad ar gael i’r Pwyllgor bob chwarter ac roedd Aelodau wedi penderfynu eleni yr ystyrir Perfformiad yn llawn yng nghyfarfod llawn y Pwyllgor. Atgoffodd y Cadeirydd Aelodau fod y Pwyllgor hwn yn gyfrifol am ystyriaeth hollgyffredinol o berfformiad corfforaethol cyfan y Cyngor. Y rôl ganolog oedd monitro a oedd gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar waith a monitro perfformiad corfforaethol yn gyffredinol. Hefyd roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb rheoli perfformiad penodol dros wasanaethau megis Adnoddau, TGCh, AD, Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Eiddo.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey fod targedau wedi’u creu i gefnogi gwella parhaus. Y bwriad oedd gostwng lefelau o Absenoldeb Salwch a oedd eisoes yn gwella. 90% oedd y ffigur ar gyfer cydymffurfio â DPP yn erbyn ffigur o 54% o’r flwyddyn flaenorol. Roedd ffigurau casglu Treth Gyngor ar y trywydd iawn, ynghyd â chyfansymiau

prisiant tir. Roedd Polisi Disgyblu newydd yn cael ei gyflwyno a byddai hyn yn cefnogi'r Rhaglen Cyflogeion.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y crynodeb o brif faterion gan y Trosolwg Corfforaethol a gofynnodd pam nad yw 12% o ganlyniadau'r Dangosydd Perfformiad ar gael ar hyn o bryd. Mewn ymateb esboniodd y Cynghorydd Hinchey nad yw gwybodaeth am DPP/Absenoldeb Salwch ar gyfer Ysgolion ar gael er bod y broses yn cael ei chadw.

Nododd y Pwyllgor fod sgôr RAG ar Weithrediadau'r Ddinas yn wyrdd a gofynnodd am eglurhad pellach ar y data wedi'i reoli a'r gweithrediadau i gefnogi hyn.

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey fod adnodd ychwanegol dynodedig gan Adnoddau Dynol wedi'i roi i Reoli Gwastraff i gefnogi'r gwasanaeth.

Nododd y Pwyllgor fod Absenoldeb Salwch mewn rhai Adrannau yn uwch yn enwedig mewn meysydd lle bo staff yn profi cyflyrau gweithio sy'n arwain at faterion salwch heriol. Mae rhwydweithiau cefnogi cyflogeion ar gael yng Ngwasanaeth Cwnsela'r Cyngor ac mae'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion yn cynnig gwasanaeth 24 awr.

Roedd Aelodau o'r Pwyllgor yn pryderu bod cynnydd yn erbyn gweithrediadau yn y Cynllun Corfforaethol 2015/16 yn cynnwys sgôr oren o 25%. Mewn ymateb, esboniodd Swyddogion, mewn perthynas â'r sgoriau RAG, y byddai rhai dangosyddion perfformiad bob amser yn derbyn sgôr Oren, sydd o ganlyniad i lefelau goddef rhifol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad perthnasol a gofynnodd pam nad oedd 8% yn addas ar gyfer gosod targedau. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddogion fod targedau'n cael eu gosod ar y waelodlin ac y byddai'r broses gyffredinol yn cael ei dadansoddi wrth symud ymlaen.

Cydnabu'r Pwyllgor y gellir nodi gwelliannau mewn rhai meysydd a'i bod yn dibynnu ar yr adrannau perthnasol. Roedd ansawdd sgyrsiau'n hanfodol i gefnogi gwelliant ynghyd â dynamig gweithio cyffredinol yr adran. Roedd y Fframwaith Datblygu Perfformiad yn hanfodol o ran y sefydliad yn symud ymlaen gyda chanolbwyntio ar amcanion.

Esboniodd Aelodau o'r Pwyllgor fod rheolwyr llinell yn cynnal mwy o gyfarfodydd un i un rheolaidd gyda chyflogeion mewn rhai sefydliadau, a helpodd i wella absenoldeb salwch. Roedd sgyrsiau dychwelyd i'r gwaith yn hanfodol i gefnogi cyflogeion yn eu hamgylchiadau gwaith.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y canlynol:
"Mae'r project cyfyngu ar Wastraff yn parhau i gynhyrchu mwy o dunelli o ddeunyddiau ailgylchu. Ar adeg ysgrifennu, roedd perfformiad o ran ailgylchu yn erbyn targed statudol i'w gadarnhau o hyd."

Dywedodd Swyddogion wrth Aelodau o'r Pwyllgor nad oedd y targed terfynol ar gyfer gwasanaethau ailgylchu wedi'i gynnwys o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r ffigur terfynol ar gyfer y Targed Cenedlaethol ar gael eto.

Trafododd y Pwyllgor ddata'r Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer Cyflawniad Addysgol gan nodi'r dangosyddion wedi'u sgorio'n goch gan RAG.

Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor am wybodaeth am adrodd data y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer tipio anghyfreithlon gan mai gwyrdd oedd ei sgôr RAG cyfredol, nad yw'n adlewyrchu nifer o wardiau'n gywir. Yn ogystal, holodd Aelodau a fyddai'n bosibl rhoi'r wybodaeth hon ar sail wardiau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y dangosyddion perfformiad allweddol hyn mewn perthynas â materion Rheoli Gwastraff yn cael eu cadw'n ôl gan eu bod wedi'u cysylltu â'r Targedau Cenedlaethol. Rhoddodd yr wybodaeth gyfredol syniad rhannol yn unig a bydd mwy o dystiolaeth yn cael ei rhoi pan gaiff y Targedau Cenedlaethol eu cyhoeddi. Rhodd y Dangosyddion Perfformiad lun cyfannol ac roedd angen triongliant o wybodaeth i ddeall sefyllfa gywir perfformiad.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi).

9 : STRATEGAETH IECHYD A LLESIANT GWEITHWYR 2016-19

Croesawodd y Cadeirydd y tystion canlynol i'r cyfarfod:

- Lynne David, Rheolwr Gweithredol, Canolfan Arbenigedd
- Siân Coleman, Arbenigwr Datblygu Sefydliadol

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau graffu ar Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2016-19 cyn iddi gael ei hystyried gan y Cabinet ar 16 Mehefin 2016. Roedd y Strategaeth wedi datblygu o ganlyniad i Strategaeth Gweithlu'r Cyngor 2015-18, oedd wedi'i thanategu gan weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a'i halinio â'r Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Hinchey bum project oedd yn y Strategaeth Gweithlu a dynnodd sylw at gymorth amrywiol sydd ar gael i gyflogeion.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi prif bwyntiau'r Strategaeth.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am y prosesau sydd ar waith i nodi materion cyflogeion sy'n ymwneud â straen a phryder. Mewn ymateb, rhodd Swyddogion sicrwydd i'r Pwyllgor fod gweithdrefnau ar waith i ymdrin â materion sy'n ymwneud â straen a bod cwrs ymwybyddiaeth o straeon sy'n cael ei dreialu ar gael i staff.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y newidiadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â thrin materion Iechyd Meddwl. Roedd yn hanfodol waredu'r stigma ynghlwm â'r mater hwn ac i roi'r cymorth angenrheidiol i gyflogeion yn ôl yr angen.

Trafododd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn y gwaith a nododd fod 2 Swyddog Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar y grŵp project.  Mae tuedd am i lawr wedi ei gofnodi yn erbyn damweiniau ac mae hyn wedi'i adrodd i'r grŵp.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at y diffiniad penodol o Les Corfforol a Meddygol. Ymddangosodd hyn fel model meddygol yn hytrach na model cymdeithasol ac ni ddylid targedu osgoi salwch.

Nododd y Pwyllgor y gall staff mewn Ysgolion fanteisio ar y Strategaeth.  Fodd bynnag, cydymffurfiodd Ysgolion â'r Fenter Ysgolion Iach yn hytrach na'r Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr.

Roedd hyfforddiant i staff yn cael ei ddatblygu trwy Academi Caerdydd ac roedd tîm Project a Chadeirydd Project yn cael eu penodi.  Roedd hefyd modd cynnwys partneriaid.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Strategaeth yn dod yn ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried gyda dangosyddion wedi'u diweddaru a'r Polisi Datrysiadau.  Byddai ystadegau'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion hefyd yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor er gwybodaeth iddo.

PENDERFYNWYD: Y byddai Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu at y tystion yn diolch iddynt am ddod i'r cyfarfod fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi).

10 : BUSNES Y PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad Gwybodaeth Gohebiaeth.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

5 Gorffennaf 2016